Draig Goch Red Dragon

Faslane 365

Paul Peter Piech

Eich Cyfle chi i Stopio Trosedd Ryngwladol

Mae Faslane 365 wedi dechrau!

Ar Hydref 1af, lansiodd grwp o'r Greenham Common and Aldermaston Women's Peace Camp(aign), ar y cyd â'r grwp Women in Black, brotest flwyddyn drwy greu blocâd yn safle arfau niwclear Trident yn Faslane am 3 diwrnod – gyda cherddoriaeth, danwsio, gwau a baneri lliwgar.

Faslane 365

yw'r prosiect gwrthsafiad sifil sy'n anelu at ddwyn pwysau cyhoeddus o bob cwr o Brydain, Ewrop, a gweddill y byd, i ddiarfogi Trident.

Mae grwpiau o bobl gyffredin wedi penderfynu creu blocâd o flaen y ganolfan am o leiaf un cyfnod o ddau ddiwrnod yr un mewn cyfnod o ddeuddeng mis. Y gobaith yw y bydd hyn yn creu blocâd heddychlon parhaus yn safle Trident yn Faslane.

Mae grwpiau o Gymru wedi ymrwymo eu hunain i gasglu cymaint o bobl â phosibl at ei gilydd i fanteisio ar y cyfle hwn i wneud gwahaniaeth a chymryd camau i stopio Trident.

Bydd llawer o bobl eisiau cymryd rhan yn Faslane 365 am resymau moesegol, i atal gwastraffu adnoddau a sicrhau dyfodol mwy diogel ar gyfer eu plant a'u hwyrion ac wyresau, a bydd eraill yno am resymau amgylcheddol, neu am eu bod yn credu bod llawer gwell ffyrdd o ddefnyddio arian y trethdalwyr.

Ers hynny, mae dros 50 o grwpiau mor amrywiol â 'Beicwyr', Crynwyr, grwp Nordig, y Blaid Werdd, Clerigwyr o Iona a grwp Stop the War wedi, neu wrthi yn, cynllunio i greu blocâd ar safle Faslane am 48 awr. Mae Faslane 365 yn gyfle i unrhyw un sy'n pryderu am y sefyllfa ymuno â ni, i fynegi eu hanfodlonrwydd am arfau niwclear Prydeinig ac i roi diwedd ar Trident.

Mae grwp o bobl ifanc o Sir Benfro ymysg y rhai o Gymru sy'n bwriadu mynd yno.

Pam ddim chi?

Draig Goch - Red Dragon

Mae pob grup yn blocedio Faslane am 2 ddiwrnod.

Bydd grwp **De a Chanolbarth Cymru** yn gadael Cymru noson y 12fed i gymryd rhan yn y blocâd ar y 13eg a 14eg o Dachwedd.
Bydd grwp **Gogledd Cymru** yn blocedio ar y 14eg a 15fed o Dachwedd. Bydd y ddau grwp yn 'gorgyffwrdd' ar y 14eg o Dachwedd.
Os ydych chi'n ymgyrchydd gweithredu uniongyrchol profiadol, neu erioed wedi gwneud y math yma o beth o'r blaen, byddem yn falch iawn o'ch cael chi yno gyd ni.

Os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth, neu'n gallu rhoi'ch amser am ddau ddiwrnod, anfonwch eich manylion atom (gweler isod). Bydd y cydlynwyr yn anfon cysylltiadau, cyngor a gwybodaeth atoch chi, dros e-bost os yn bosibl, ond os nad ydych chi ar-lein, rydym yn dal i fod eisiau i chi gymryd rhan.

Pobl gyffredin ydym ni o bob math o gefndiroedd: brodyr a chwiorydd; rhieni a neiniau a theidiau.

Ymunwch â ni!

Bydd bysys neu fysys mini yn mynd â chefnogwyr o Dde, Canolbarth a Gogledd Cymru. Bydd grup De a Chanolbarth Cymru yn gadael Cymru ar y dydd Sul (12fed Tachwedd) ac yn dychwelyd ar y nos Fawrth. Bydd grup Gogledd Cymru yn gadael ar ddydd Llun y 13eg o Dachwedd ac yn dychwelyd ar y nos Fercher. Mae opsiynau llety yn cael eu trefnu. Byddwn angen tua £35 ar gyfer pob person fydd yn cymryd rhan, i helpu talu costau. Nid ydym eisiau i unrhyw un deimlo nad ydynt yn gallu cymryd rhan am resymau ariannol, ac rydym yn gobeithio y bydd pobl eraill yn noddi'r rhai sy'n gallu mynd ond sy'n methu â'i fforddio (gweler isod).

Yr unig beth rydym ei angen yw chi.

Mae angen i bawb sy'n cymryd rhan fod ag ymrwymiad i weithredu uniongyrchol di-drais ar y mater hwn. Mae hyn yn golygu agwedd bositif, parch at eraill, a hunanddisgyblaeth o ran peidio â defnyddio cyffuriau ac alcohol. Rydych chi'n gyfrifol amdanoch chi eich hun, nid oes unrhyw un yn eich rheoli chi, a byddwn i gyd yn cadw golwg ar ein gilydd. Does dim rhaid i bobl ymrwymo eu hunain i gael eu harestio hyd yn oed. Beth am feddwl am ffyrdd o 'addurno'r' safle, neu syniadau theatrical, gwreiddiol eraill? Dewch â'ch cerddi a'ch caneuon!
Fe allwn ni *fod* y ddraig goch - gwisgwch rywbeth coch!

'annerbyniol o ddrud, economaidd wastraffus a milwrol ansicr.'
Gordon Brown am Trident, Adroddiad Swyddogol, 19 Mehefin 1984

Manteisio ar y cyfle –
Dweud *Na* i Arfau Niwclear

Mae arfau niwclear yn arfau llofruddiaeth a distryw mawr. Trident yw gwarth Prydain ac nid yw'n aml yn cael ei drafod na'i grybwyll yn gyhoeddus.

Gall cael digon o bobl yn defnyddio eu hawlio i brotestio'n heddychlon, drwy rwystro gweithgareddau yn Faslane, helpu tynnu sylw at Trident.

Mae hwn yn gyfle i hysbysu'r cyhoedd a'n ffrindiau a chymdogion am fodolaeth ac anghyfreithlondeb yr arfau hyn, eu diffyg pwrpas yn yr oes wedi'r rhyfel oer a'u cost aruthrol ar draul gwariant cyhoeddus ar iechyd, addysg a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

'Rhaid i'r byd anelu at gael gwaharddiad ar feddiant a defnydd o arfau niwclear, yn yr un modd ag y mae gwaharddiadau ar arfau biolegol a chemegol.
Rhaid i bob gwladwriaeth – hyd yn oed y pwerau mawr – baratoi i fyw heb arfau niwclear ac arfau distryw eraill.'
Hans Blix, cyn arolygydd arfau niwclear, Cadeirydd y Comisiwn Arfau Dinistr Torfol

Materion Cyfreithiol

Bydd pawb sy'n mynychu yn poeni o fewn rheswm am eu hawliau i brotestio, a'r hyn fydd yn digwydd os byddant yn cael eu harestio. I gynnig cefnogaeth ac amddiffyniad, mae Grup Llywio Faslane 365 wedi sefydlu Gweithgor Cefnogi Cyfreithiol i gynnig cyngor a chefnogaeth i grwpiau sy'n blocedio. Bydd briffiau cyfreithiol hefyd ar gael.

Llety

Mae amrywiaeth o lety ar gael yn yr ardal, o safleoedd gwersylla neu neuaddau eglwys i 'Travel Lodges'. Mae rhai grwpiau hyd yn oed yn ystyried opsiwn rhatach - cysgu dan y sêr! Bydd y pwyllgor trefnu yn trefnu llety, ond dim ond ar ôl cael cadarnhad y byddwch chi yno y gallwn ni wneud hyn. Anfonwch ateb yn syth fel y gallwn ni archebu lle i chi. Mae gwybodaeth ar gael ar gyfer y rhai sydd eisiau trefnu eu llety eu hunain, neu ewch i www.faslane365.org.

Mae cyfarfodydd briffio a gweithdai yn cael eu cynnal yng Ngogledd, Canolbarth a De Cymru. I gael gwybod mwy, defnyddiwch y rhestr gysylltu isod.

Cysylltiadau

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cymryd rhan, cysylltwch cyn gynted â phosibl.

Gogledd Cymru:
Phil Steele 01248 490 715
phil_steele@btinternet.com
Canolbarth Cymru:
Del Harris 01974 831 575
coney@gn.apc.org
De Cymru:
Martin Fitton 02920 481 791
martin@mfitton.wanadoo.co.uk
Mwy am Faslane 365:
www.faslane365.org
Lluniau a map o Faslane:
www.tridentploughshares.org/article989
CND Cymru: 01495 773 180
heddwch@cndcymru.org



Ffyrdd eraill o gefnogi Faslane 365

Mae Datganiad o Gefnogaeth ar gyfer Faslane 365 wedi cael ei arwyddo gan dros 40 o wleidyddion etholedig, 27 o enillwyr gwobr Right Livelihood a 3 enillydd Gwobr Heddwch Nobel, ymysg llawer mwy, gan gynnwys ysgrifenwyr, academyddion, cyfreithwyr ac arweinwyr crefyddol. Gweler: **www.faslane365.com**

Ymunwch â ni, hyd yn oed os na allwch chi ddod:

- Cynnig cymorth ariannol. Noddwch ymgyrchydd Faslane 365, yn llawn neu'n rhannol. Anfonwch roddion i: Faslane 365, c/o 72, Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe, SA8 3AN. Gwnewch sieciau'n daladwy i: *Môr Di-Niwclear.*
- Anogwch bawb i gymryd rhan yn Nhrafodaeth Fawr CND am Trident - gweler gwefan y drafodaeth: **www.bigtridentdebate.org.uk**
- Ysgrifennwch i'ch papur lleol yn dweud wrthynt am y grwpiau Faslane 365 o Gymru, beth a pham y maent yn ei wneud a'ch rhesymau chi am eu cefnogi.
- Ysgrifennwch at eich AS/AC/ASE yn gofyn iddynt lofnodi'r Datganiad o Gefnogaeth i Faslane 365 (**gweler www.faslane365.org**) neu i ddiolch iddynt os ydynt eisoes wedi gwneud hynny – helpwch i wneud Trident yn fater etholiadol!
- Ystyriwch ymuno â grwp arall Faslane 365 o fewn y flwyddyn nesaf (gweler **www.faslane365.org**)

Gorchymyn Faslane 365

Rhaid i Trident gael ei ddigomisiynu a dylai'r llywodraeth lunio amserlen ar gyfer datgymalu'r arfau, ynghyd ag ymrwymiad i beidio â datblygu unrhyw arfau niwclear newydd.

Faslane 365

Datganiad o Gefnogaeth

Fel pob arf distryw mawr, mae Trident yn anghyfreithlon dan gyfraith ryngwladol, ac yn fradychiad llwyr o'n hunaniaeth. Yn absenoldeb unrhyw wir fwriad gan y wladwriaeth i ddiarfogi

Rwyf i/mae'r sefydliad hwn yn cymeradwyo ac yn cefnogi'r rhai sy'n ymateb i'r erchyllter hwn drwy weithredu'n heddychlon ar ffurf gwrthsafiad sifil, gan gynnwys amharu'n ddi-drais ar safle llong danfor Trident yn Faslane drwy flocedio.

Ar gyfer unigolion.
Dyddiad:-

Llofnodwyd gan:-

Enw, cyfeiriad, e-bost, proffesiwn a swydd yr **unigolyn** sy'n llofnodi:-

Ar gyfer Sefydliadau.
Dyddiad:-

Llofnodwyd gan:-

Statws yn y Sefydliad:-

Enw, cyfeiriad, e-bost, a gwefan y Sefydliad:-

Llofnodwch ble bo'n briodol a dychwelwch drwy e-bost i reforest@gn.apc.org neu ei bostio i:- Faslane 365, Valley Farmhouse, East Runton, Cromer, Norfolk, NR27 9NP, Lloegr.
Gallwch hefyd lofnodi'r Datganiad hwn ar-lein yn www.faslane365.org

Trident – anfoesol, anghyfreithlon a drud

Mae pedair llong danfor niwclear wedi'u lleoli yn Faslane, gydag un ar batrôl 24 awr ac yn barod i danio ar unrhyw adeg.
Mae pob llong danfor yn cario hyd at 16 o daflegrau Trident II D5, ar les gan yr UDA.
Mae 3 arfben niwclear wedi'u gosod ar bob taflegryn, a gall pob llong danfor gario hyd at 48 o arfbennau.

Gellir anelu pob arfben at wahanol dargedau, gydag arweiniad gan loerennau'r UD.
Mae pob arfben 8 gwaith yn fwy pwerus na'r bom a ollyngwyd ar Hiroshima, Siapan yn 1945, a laddodd 100,000 o bobl ar unwaith. Mae gan bob llong danfor yr un gallu dinistriol â 384 o fomiau Hiroshima.

Mae Llywodraeth Prydain eisoes yn gweithio ar arfau i gymryd lle system arfau niwclear oedrannus y Trident – er gwaetha'r ffaith y bydd

- **yn costio biliynau o bunnoedd o arian cyhoeddus**
- **yn cadw arfau niwclear yn yr Alban nes o leiaf 2055**
- **yn torri cyfraith ryngwladol**
- **yn tanseilio cytundebau rheoli arfau rhyngwladol**
- **yn annog lledaeniad arfau niwclear, ac er gwaetha'r ffaith**
- **nad yw wedi cael ei drin na'i drafod yn y Senedd.**

Trident – yn groes i gyfraith ryngwladol

Yn 1996, barnodd y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol: "y byddai bygwth neu ddefnyddio arfau niwclear yn groes i reolau cyfraith ryngwladol sy'n berthnasol i wrthdaro arfog, ac yn benodol egwyddorion a rheolau cyfraith ddyngarol".
Mewn geiriau eraill, byddai unrhyw ymosodiad niwclear yn anghyfreithlon, oni bai y gellid ei weithredu o fewn cyfyngiadau'r gyfraith ddyngarol, sef sefyllfa sy'n amhosibl i'r rhan fwyaf o bobl ei dychmygu.

'Arfau niwclear, biolegol a chemegol yw'r arfau mwyaf creulon sy'n bodoli. Maent wedi'u cynllunio i frawychu ac i ddinistrio, ac yn nwylo gweithredwyr gwladwriaeth neu anwladwriaethol, gallant achosi dinistr ar raddfa llawer mwy nag unrhyw arf confensiynol, ac mae eu heffaith yn llawer mwy eang a pharhaol'

Y Comisiwn Arfau Distryw Mawr

'A ellid cael bygythiad mwy dychrynllyd, yn y byd sydd ohoni, nag arfau niwclear neu fiolegol yn nwylo terfysgwyr, neu'n cael eu defnyddio gan Wladwriaeth, o ganlyniad i rwy gamddealltwriaeth neu gamsyniad ofnadwy? Po fwyaf o Wladwriaethau sydd ag arfau o'r fath, y mwyaf yw'r perygl. A, po fwyaf y bydd y Gwladwriaethau hynny yn parhau i ychwanegu at eu harsenal, neu'n mynnu bod arfau o'r fath yn hanfodol i ddiogelwch eu cenedl, y mwyaf y bydd Gwladwriaethau eraill yn teimlo bod yn rhaid iddynt hwythau eu cael, er eu diogelwch eu hunain.'

Kofi Annan, Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig

Trident - yn groes i drefniadau rhyngwladol

- Byddai diarfogi niwclear yn galluogi Prydain i gyflawni ei rwymedigaeth 35 mlynedd i ddiarfogi niwclear dan Erthygl VI y Cytundeb Atal-Lledaenu Niwclear (NPT) sy'n nodi: **"Mae pob Plaid i'r Cytundeb yn ymrwymo i gynnal trafodaethau mewn ewyllys da ar fesurau effeithiol yn ymwneud â darfyddiad y ras arfau niwclear yn gynnar a diarfogi niwclear, ac ar gytundeb i ddiarfogi cyffredinol a chyfan dan reolaeth ryngwladol gaeth ac effeithiol".**
- Yn 2004, dadleuodd arbenigwr cyfreithiol awdurdodol o Matrix Chambers y byddai adnewyddu'r Cytundeb Amddiffyn Cilyddol (MDA) gyda'r Unol Daleithiau yn golygu y byddai Prydain yn torri amodau'r Cytundeb Atal-Lledaenu Niwclear (NPT) yn glir.
- Yn 2005, pwysleisiodd Llywodraeth Prydain yr "ymrwymiad clir" a wnaeth gyda 188 o wladwriaethau eraill yn 2000, pan gafodd y Cytundeb Atal-Lledaenu Niwclear ei adolygu **"i gyflawni'r dasg o gael gwared yn gyfan gwbl ar eu harsenal niwclear, gan arwain at ddiarfogiad niwclear"**. Ac eto, pan gawsant y cyfle, nododd y Llywodraeth yn syth ei fod yn ffafrio prynu, dosbarthu a defnyddio cenhedlaeth arall o arfau niwclear.